Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon – 15 Ionawr 2020
Y Gweinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru 2020-21

1.0 Cyflwyniad

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth ariannol gefndirol i'r Pwyllgor am fy nghynlluniau gwario fel y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth mewn perthynas â'r cyllidebau Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol yn fy mhortffolio, fel y nodir yn y Gyllideb Ddrafft fanwl a gyhoeddir ar 16 Rhagfyr.

Yn y llythyr dyddiedig 18 Hydref 2019 yn fy ngwahodd i sesiwn y Pwyllgor, mae'r Pwyllgor wedi gofyn am wybodaeth am faterion cyllidebol penodol. Er mwyn hyrwyddo gweithgarwch corfforol, mae angen cydweithrediad rhwng amrywiaeth o sectorau, cyrff cyhoeddus a phortffolios Llywodraeth Cymru, gan gynnwys iechyd, addysg, trafnidiaeth a'r amgylchedd, yn ogystal â chwaraeon. Mae'r papur hwn ond yn ymateb mewn perthynas â llinellau gwariant y gyllideb sy'n ymwneud â chwaraeon a'r gwaith mae fy swyddogion yn ei wneud ar y cyd â swyddogion mewn portffolios eraill.

2.0 Crynodeb o Newidiadau i'r Gyllideb

Mae Cyllideb Ddrafft 2020-21 yn rhoi cynllun blwyddyn ar gyfer buddsoddiad refeniw a chyfalaf. Mae sylwadau a dadansoddiad o ddyraniadau dangosol y Prif Grŵp Gwariant ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol a'r Gymraeg 2020-21, fel y'u cymharwyd â Chyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 ac sy'n ymwneud â chwaraeon a gweithgarwch corfforol, wedi'u cynnwys yn **Nhablau 1 a 2.** Caiff dyraniadau ar gyfer 2021-22 eu hasesu fel rhan o'r ystyriaethau cynllunio manwl yn y dyfodol ar gyfer y portffolio.

CRYNODEB O NEWIDIADAU DRAFFT I'R GYLLIDEB

TABL 1: Trosolwg o'r Gyllideb Refeniw					
Cam gweithredu: Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol	**Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 £'000**	**Addasiadau i'r Llinell Sylfaen £'000**	**Llinell Sylfaen Ddiwygiedig £'000**	**Newid £'000**	**Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2020-21 £'000**
Chwaraeon Cymru	22,092	0	22,092	475	22,567
Support for Sport	252	0	252	(95)	157
CYFANSWM	**22,344**	**0**	**22,344**	**380**	**22,724**

TABL 2: Trosolwg o'r Gyllideb Gyfalaf				
Cam gweithredu: Chwaraeon a Gweithgarwch Corfforol	**Cyllideb Atodol Gyntaf 2019-20 £'000**	**Cynlluniau 2020-21 yn ôl Cyllideb Derfynol 2019-20 £'000**	**Newid £'000**	**Cyllideb Ddrafft Cynlluniau Newydd 2020-21 £'000**
Chwaraeon Cymru	329	345	3,000	3,345
Ad-dalu Cynllun Benthyciadau Cyfalaf Chwaraeon	(320)	(320)	66	(254)
CYFANSWM	**9**	**25**	**3,066**	**3,091**

Mae dyraniad ychwanegol o £0.475m i gyllideb refeniw Chwaraeon Cymru i gefnogi pwysau cyflog a phensiwn. Mae cyllideb Support for Sport ar gael ar gyfer blaenoriaethau cyflawni. Fel rhan o'r gwaith cynllunio manwl ar gyfer y Prif Grŵp Gwariant ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol a'r Gymraeg, mae trosglwyddiad o £0.095m i gefnogi blaenoriaethau ehangach yn y portffolio. Dylid nodi hefyd fod y dyraniad yn cynnwys darpariaeth nad yw'n arian parod o £0.779m ar gyfer dibrisiant.

Mewn perthynas â'r gyllideb gyfalaf, mae dyraniad ychwanegol o £3m yn 2020-21 ar gyfer y Gronfa Cyfleusterau Chwaraeon Strategol. Mae hefyd ostyngiad o £66k ar gyfer Ad-dalu Cynllun Benthyciadau Cyfalaf Chwaraeon er mwyn adlewyrchu ad-daliad cynnar mewn blynyddoedd blaenorol. Caiff y Cynllun Benthyciadau Cyfalaf Chwaraeon ei ariannu gyda chyfalaf trafodiadau ariannol sy'n ad-daladwy i'r Trysorlys. Mae cyfanswm y benthyciadau, sef £1,828,362, mewn perthynas â thri benthyciad a wnaed i awdurdodau lleol o dan y cynllun, yn ad-daladwy yn llawn dros gyfnod o saith mlynedd (dechreuodd yr ad-daliadau yn 2018-19). Mae £1,136,795 yn ddyledus o hyd.

3.0 Ymatebion i Wybodaeth Benodol y Gofynnwyd Amdani gan y Pwyllgor

3.1 Yr arian a ddyrennir i Chwaraeon Cymru, a'r cynnydd a wnaed wrth fonitro effeithiolrwydd defnydd Chwaraeon Cymru o arian.

Dangosir cyfanswm yr arian a ddyrennir i Chwaraeon Cymru yn 2020-21 yn Nhablau 1 a 2 uchod.

Ym mis Ionawr eleni, roeddwn yn falch iawn o gyhoeddi y byddai £5m ychwanegol mewn arian cyfalaf yn cael ei ddyrannu i Chwaraeon Cymru, er mwyn helpu clybiau a sefydliadau chwaraeon yng Nghymru i wella ac uwchraddio eu cyfleusterau. Mae'r arian hwn wedi cael ei rannu gan Chwaraeon Cymru er mwyn bod o fudd i amrywiaeth o brosiectau. Mae'r £1m gyntaf wedi cael ei dyrannu i amrywiaeth o brosiectau cydweithredol, aml-chwaraeon ledled Cymru sy'n cynnwys cyfleusterau beicio newydd a phrosiectau caeau 3G. Defnyddiwyd £1m bellach i lansio'r gronfa 'Lle i Chwaraeon' ym mis Ebrill a gafodd ei dyrannu ar gyfer ceisiadau cyhoeddus er mwyn helpu i hybu cyfleusterau chwaraeon cymunedol yng Nghymru. Yn ystod proses ymgeisio o saith wythnos yn unig, cafwyd 318 o geisiadau yn gofyn am gymorth grant, cyfanswm o £15.1m. Roedd 121 o geisiadau llwyddiannus – o 26 o chwaraeon a 22 o ardaloedd awdurdodau lleol – a bydd Chwaraeon Cymru yn monitro ac yn gwerthuso'r defnydd o'r gwariant hwn yn agos ac yn rhoi gwybod i'm swyddogion Chwaraeon am y cynnydd. Mae'r £3m sy'n weddill wedi cael ei ddyrannu ar gyfer y canlynol:

- £1m er mwyn helpu i ehangu Cynllun Cae Artiffisial Cyfleusterau Chwaraeon Cydweithredol Cymru ar gyfer ardaloedd defnydd aml-chwaraeon neu ATP nad ydynt o faint llawn fel prosiectau cymwys. Mae 12 o gynlluniau wedi cael eu cefnogi.
- Mwy o arian ar gyfer cynlluniau Byrddau Llywodraethu Cenedlaethol Chwaraeon presennol. Mae pum chwaraeon sydd â chynlluniau cyfalaf o'r fath wedi cael dyfarndaliadau ariannol o gyfanswm o £1m. Mae'r rhain yn cynnwys Athletau Cymru, Criced Cymru, Ymddiriedolaeth Bêl-droed Cymru, Tenis Cymru ac Undeb Rygbi Cymru.

- Cyfraniad o £1m i gyllideb gyfalaf awdurdodau lleol ar gyfer gwella/adnewyddu pyllau nofio ledled Cymru, yn unol â fformiwla dyrannu'r Cynllun Nofio am Ddim.

Caiff effeithiolrwydd defnydd Chwaraeon Cymru o gyllid ei fonitro ymhellach ar amrywiaeth o lefelau. Mae hyn yn cynnwys y cynnydd a wneir ynghylch y Gronfa Iach ac Egnïol ac rydym wedi secondio swyddog i weithio gyda Chwaraeon Cymru mewn rôl cyswllt polisi sydd wedi canolbwyntio ar gyflawni polisïau a chydgysylltu'r gronfa.

Mae fy swyddogion Chwaraeon yn cael trafodaethau rheolaidd â Chwaraeon Cymru ynglŷn â chyflawni model Chwaraeon Cymunedol newydd Chwaraeon Cymru. Maent hefyd yn cynnal cyfarfodydd monitro chwarterol gyda Chwaraeon Cymru, yn mynychu'r cyfarfodydd Bwrdd ac yn trafod â'r Prif Weithredwr yn rheolaidd. Rwy'n cwrdd â Chadeirydd a Phrif Weithredwr Chwaraeon Cymru o bryd i'w gilydd i drafod blaenoriaethau polisi a chynnydd o ran cyflawni'r Llythyr Cylch Gwaith a'r Cynllun Busnes.

Mae Chwaraeon Cymru wedi adolygu ei ddull cynllun busnes. Er y bydd yn parhau i lunio cynllun blynyddol, nod ei ddull newydd o weithredu yw bod yn fwy myfyrgar ac ymaddasu i anghenion ac amgylchiadau sy'n newid. Mae hyn yn cysylltu â'i weledigaeth a'i strategaeth ddiwygiedig a fydd â ffocws ar ddull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn, gan sicrhau y caiff yr adnodd hwnnw ei ddefnyddio i wneud chwaraeon yn hygyrch i bawb drwy gydol eu bywydau.

Mae Cynllun Busnes diweddaraf Chwaraeon Cymru yn nodi ei uchelgeisiau a'i flaenoriaethau, gan adlewyrchu'r safbwyntiau a fynegwyd iddo gan bobl Cymru fel rhan o'i ymarfer rhanddeiliaid “Sgwrs Genedlaethol” eang. Mae hefyd yn ymgorffori meysydd penodol yr ydym wedi'u nodi yn ei lythyr cylch gwaith; ceir rhagor o wybodaeth am hyn yn adran 3.2.

Mae'r Cynllun Busnes ar gyfer 2019-20 yn nodi y bydd Chwaraeon Cymru yn gwneud y canlynol:

- Cynnal a gwella cyfleoedd i bobl gymryd rhan/cystadlu mewn chwaraeon yn rheolaidd;
- Datblygu cyfleoedd gydag eraill ar gyfer pobl sy'n llai egnïol;
- Cefnogi a dylanwadu ar chwaraeon mewn sectorau gwahanol;
- Annog partneriaid i fabwysiadu dull hirdymor, moesegol o ddatblygu athletwyr;
- Cefnogi Cymru i lwyddo ar y llwyfan rhyngwladol;
- Datblygu gallu ac adnoddau, a hyder;
- Canolbwyntio ar weithgarwch corfforol pobl ifanc;
- Sicrhau bod dealltwriaeth yn ei lywio yn yr holl waith a wneir ganddo.

Caiff hyn ei gyflawni drwy'r canlynol:

- Strategaeth Adnoddau newydd sy'n cyd-fynd â'r bwriad strategol;
- Adolygiad strategol o'r rôl a diben y Canolfannau Cenedlaethol;
- Dull newydd o gefnogi a datblygu partneriaethau;
- Astudiaeth a gomisiynwyd o'r amgylchedd gorau i athletwyr;
- Fframwaith sicrhau partner newydd;
- Hwb Deallusrwydd Chwaraeon i ddatblygu cydberthnasau gwell â'r sector academaidd. Mae grŵp Rhwydwaith Chwaraeon ac Academia wedi cael ei sefydlu gan ddod â phrifysgolion ledled Cymru ynghyd, yn ogystal â Chwaraeon Cymru, i archwilio dulliau ar y cyd er mwyn mynd i'r afael â bylchau tystiolaeth, deall ymchwil newydd ac sy'n dod i'r amlwg a chysylltu arbenigedd yn Chwaraeon Cymru â'i bartneriaid;
- Sefydliad wedi'i ailgynllunio a'i adnewyddu;
- Model newydd ar gyfer cyflawni Chwaraeon Cymunedol a chyflwyno Chwaraeon Gogledd Cymru.

Mae Tîm Dealltwriaeth Chwaraeon Cymru yn casglu data drwy ei arolygon ei hun ar lefelau o weithgarwch corfforol a chyfranogiad mewn chwaraeon, ac mae hefyd yn rhoi dadansoddiad o ddata a gasglwyd drwy Arolwg Cenedlaethol Cymru. Yn bwysig, Chwaraeon Cymru yw darparwr Ystadegau Swyddogol hefyd, marc ansawdd a pherthnasedd y ddealltwriaeth o ddata sy'n berthnasol mewn agendâu ehangach a meysydd polisi.

Cyhoeddodd Chwaraeon Cymru ganfyddiadau ei arolygon ar Chwaraeon Ysgol a Chwaraeon a Ffyrdd o Fyw Egnïol Addysg Bellach ym mis Tachwedd 2018 ac mae

wedi ymgysylltu â phartneriaid yn y sector chwaraeon a thu hwnt i ddatblygu camau gweithredu sy'n ymateb i'r deallusrwydd hwn. Datgelodd dadansoddiad o'r arolygon fod 48% o ddisgyblion ym Mlynyddoedd 3-11 yn cymryd rhan mewn chwaraeon allgyrsiol neu gymunedol deirgwaith neu fwy yr wythnos. Nid yw hyn wedi newid ers 2015. Mae'n rhaid mesur hyn yn erbyn cynnydd o 20% dros y ddau gylch arolwg diwethaf oherwydd cynyddodd y ffigur cyfranogiad cyffredinol 13% yn 2013 ac 8% ymhellach yn 2015. Cymerodd tua 119,000 o ddisgyblion ran yn arolwg 2018.

O safbwynt cydraddoldebau, cynyddodd lefelau cyfranogiad y rhai sydd ag anabledd/nam 7 pwynt canran dros y cylch arolwg hwn.

Yn ogystal, bu cynnydd yng nghyfranogiad y ddau grŵp ethnig lleiaf egnïol o ffigurau 2015. Cynyddodd cyfranogiad ymhlith ymatebwyr Asiaidd-Prydeinig 4 pwynt canran, a bu cynnydd o 7 pwynt canran yn y grŵp ethnig Arab/Arall. Mae hyn yn dangos nad oes unrhyw grwpiau ethnig mwyach sydd â lefel cyfranogiad sy'n is na 40%.

Cyhoeddwyd manylion llawn canlyniadau'r arolwg fel rhan o adroddiad Cyflwr y Genedl Chwaraeon Cymru, sydd ar gael yma: http://sport.wales/media/1985085/state_of_nation_2018_final_welsh__002_.pdf

Nododd canlyniadau'r arolwg Addysg Bellach fod 35% o fyfyrwyr yn cymryd rhan mewn chwaraeon neu weithgarwch corfforol ar dri achlysur neu fwy yr wythnos ac “wedi gwirioni ar chwaraeon” ond nid yw 40% yn egnïol yn rheolaidd. Er mwyn datblygu cynnydd mewn cyfranogiad yn y sector hwn, mae grŵp Chwaraeon a Llesiant newydd wedi cael ei sefydlu sy'n cynnwys cynrychiolwyr a phartneriaid Addysg Bellach allweddol i rannu arferion da ac ystyried datblygu strategaeth newydd a fydd yn canolbwyntio ar greu mwy o gyfleoedd i fyfyrwyr ymgysylltu â chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn fwy. Byddaf yn mynd i gyfarfod nesaf y Grŵp yn y dyfodol agos.

Hefyd, comisiynodd Chwaraeon Cymru werthusiad o werth cymdeithasol ac economaidd chwaraeon yng Nghymru. Cyhoeddwyd y canlyniadau ar ddiwedd 2018, ac roeddent yn dangos, am bob £1 sy'n cael ei gwario ar chwaraeon yng Nghymru, fod enillion cymdeithasol o £2.88 ar y buddsoddiad hwnnw.

Datgelodd yr adroddiad, a gynhaliwyd gan Ganolfan Ymchwil Diwydiant Chwaraeon (SIRC) ym Mhrifysgol Sheffield Hallam, fod £3.428m o fuddiannau ar gyfer cymunedau Cymru wedi cael eu cynhyrchu o gymryd rhan a gwirfoddoli mewn chwaraeon yn 2016/17.

Mae dadansoddiad o'r ffigur cyffredinol yn dangos mai gwerth cymdeithasol cyfalaf cymdeithasol gwell yw £651.47m; addysg well yw £91.15m; a llai o drosedd yw £2.17m. Gwerth cymdeithasol iechyd gwell yw £295.17m.

Teimlaf fod hyn yn ddarn allweddol o ymchwil sy'n dangos y dylanwad pwerus y gall chwaraeon ei gael ar gynifer o feysydd trawsbynciol, ac yn ddiweddar cynhaliodd Llywodraeth Cymru a Chwaraeon Cymru ddigwyddiadau dysgu fel y gallai partneriaid a rhanddeiliaid glywed mwy am yr ymarfer ymchwil a gynhaliwyd gan Brifysgol Sheffield Hallam.

Yn ogystal, rwy'n falch iawn o gyhoeddi, o ganlyniad i gyhoeddiad y gyllideb newydd, bydd £3m ychwanegol yn cael ei ddyrannu i Chwaraeon Cymru a gaiff ei ddefnyddio i wella cyfleusterau chwaraeon ledled Cymru ymhellach. Bydd y buddsoddiad ychwanegol hwn yn hybu ein Cronfa Cyfleusterau Chwaraeon ac mae'n cyd-fynd â'r wyth maes blaenoriaeth ar gyfer buddsoddiad Llywodraeth Cymru, ac mae'n arwydd o'n bwriad i ddatblygu ein hagenda i gynyddu cyfraddau cyfranogiad mewn chwaraeon ym mhob grŵp oedran, gan roi cyfleoedd o ansawdd gwell i bobl fel y gallant fwynhau ffordd o fyw sy'n iachach ac yn fwy egnïol.

3.2 <u>Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol dros y tair blynedd nesaf, a dyraniadau/gwariant rhagamcanol i gyflawni'r rhain.</u>

Cyflwynir y blaenoriaethau ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn llythyr cylch gwaith tair blynedd Chwaraeon Cymru (2018 – 2021) ac maent yn cyd-fynd â'r ymrwymiadau a'r canlyniadau a wneir yn ei gynllun busnes. Mae'r blaenoriaethau yn cynnwys:

- Cael rhagor o bobl i gymryd rhan mewn gweithgareddau egnïol yn ystod pob cyfnod o'u bywydau: tra'u bod yn yr ysgol, pan fyddant yn gadael addysg, pan fyddant yn cael swydd, os byddant yn cael eu teulu eu hunain, a phan fyddant yn ymddeol.

- Rhoi'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant drwy helpu ysgolion i addysgu'r sgiliau iddynt a rhoi'r wybodaeth, y cymhelliant a'r hyder i gymryd rhan mewn gweithgareddau egnïol a pharhau i wneud hynny.

- Buddsoddi ymdrechion ac adnoddau lle bo'u hangen fwyaf, pan fo amrywiaethau arwyddocaol o ran cyfranogiad a phan fo diffyg cyfleoedd neu ddiffyg dyhead i gymryd rhan mewn gweithgareddau egnïol.

- Helpu i gefnogi datblygiad chwaraeon cymunedol ledled Cymru.

- Helpu chwaraeon i barhau i feithrin, datblygu a chefnogi talent er mwyn cyflawni llwyddiannau sy'n ysbrydoli pobl ac yn atgyfnerthu ein hunaniaeth fel cenedl sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon.

- Dylai Chwaraeon Cymru barhau i weithio gyda'r sector addysg er mwyn sicrhau bod plant yn cael y dechrau gorau posibl mewn bywyd drwy annog a chefnogi ysgolion i ddatblygu llythrennedd corfforol a llesiant eu disgyblion.

- Cefnogi'r sector i ddefnyddio buddsoddiad cyhoeddus mewn ffordd sy'n cael mwy o effaith, a'i helpu hefyd i addasu, i ddod yn fwy cydnerth ac i ddangos sut y mae'n cyfrannu at ein nodau ac amcanion llesiant cenedlaethol.

- Datblygu Cynllun Gweithredu Gweithgarwch Corfforol drwy bartneriaeth â Chwaraeon Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

- Dadansoddi cynnydd y cynllun Nofio am Ddim.

- Sicrhau bod cymysgedd da o chwaraeon ledled Cymru sy'n defnyddio ein dyraniad arian cyfalaf newydd.

Mae'r canlyniadau allweddol yn cynnwys:

- Rhagor o bobl yn bodloni canllawiau'r Prif Swyddog Meddygol ar weithgarwch corfforol.
- Rhagor o bobl yn cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol deirgwaith neu fwy yr wythnos.
- Cynyddu lefelau cyfranogiad mewn chwaraeon a gweithgarwch corfforol gan y rheini sydd â'r angen mwyaf neu sy'n fwyaf difreintiedig.
- System sy'n cyflawni llwyddiannau parhaus mewn chwaraeon elît, yn ogystal â sicrhau diogelwch, llesiant a lles y bobl sy'n cymryd rhan ynddynt.

Un o themâu ategol allweddol y gwaith hwn yw pwysigrwydd cydweithredu, gan weithio gyda'r nifer o bartneriaid a chyrff cyflawni ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol ledled Cymru a mabwysiadu dulliau cydweithredol arloesol a rhanbarthol a chydnabod cyfleoedd i ddatblygu rhaglenni llwyddiannus a ffyrdd o weithio.

Gan ymateb i bwyntiau a wnaed gan yr adolygiad annibynnol o Chwaraeon Cymru yn 2017, gwnaethom ofyn i Chwaraeon Cymru gynnal nifer o adolygiadau gweithredol gan gynnwys:

- Adolygu'r weledigaeth a llunio strategaeth hirdymor newydd ar gyfer chwaraeon yng Nghymru. Mabwysiadwyd y weledigaeth ddiwygiedig gan Chwaraeon Cymru ym mis Gorffennaf 2018 ac mae hyn wedi cael ei atgyfnerthu drwy fabwysiadu strategaeth gysylltiedig ym mis Gorffennaf 2019.

- Sefydlu'r Rhaglen Chwaraeon a Gweithgarwch Cymunedol. Mae'r model newydd hwn ar gyfer cyflawni chwaraeon cymunedol yng Nghymru yn cyrraedd cam cyffrous yn dilyn ymgynghoriad eang â rhanddeiliaid dros yr haf. Mae datganiadau o ddiddordeb gan randdeiliaid wedi cael eu cydnabod gyda'r

nod y bydd Chwaraeon Gogledd Cymru yn weithredol yn ystod gwanwyn y flwyddyn nesaf.

Caiff y £3m ychwanegol a ddyrennir i Chwaraeon Cymru ei ddefnyddio i gefnogi datblygiad cyfleusterau chwaraeon ledled Cymru ymhellach. Nid yn unig y bydd y buddsoddiad hwn yn cefnogi'r weledigaeth o genedl egnïol, ond bydd hefyd yn cefnogi anghenion ein cymunedau lleol, gan greu sector chwaraeon sy'n fwy cydnerth a chynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Roedd yn glir, yn dilyn y 318 o geisiadau a gafwyd gan Chwaraeon Cymru ar gyfer ei gronfa Lle i Chwaraeon, fod lefel y galw yn uchel ac oddi wrth nifer o glybiau a sefydliadau chwaraeon gwahanol a oedd i gyd yn awyddus i wella eu cyfleusterau chwaraeon.

Mae buddsoddiad ychwanegol i ddatblygu cyfleusterau chwaraeon o ansawdd gwell ledled Cymru yn hanfodol fel y gall pobl fwynhau eu profiadau wrth ymgysylltu â chwaraeon. Mae hefyd yn helpu clybiau a sefydliadau chwaraeon i greu amgylcheddau a fydd yn ehangu cyfranogiad, mwynhad, cyflawniad personol a boddhad.

3.3 Pa dystiolaeth sydd wedi ysgogi gwaith gosod blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r gyllideb arfaethedig ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Mae tystiolaeth wedi cael ei thynnu o Arolwg Cenedlaethol Cymru, Arolwg Chwaraeon Ysgol, Arolwg Chwaraeon a Ffyrdd o Fyw Egnïol Addysg Bellach, ac arolygon blaenorol megis Oedolion Egnïol ac Arolwg Iechyd Cymru. Mae tystiolaeth ansoddol wedi cael ei choladu gan amrywiaeth eang o drafodaethau ymgynghori, er enghraifft, canlyniadau o “Sgwrs Genedlaethol” Chwaraeon Cymru â phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol ledled Cymru fel rhan o'r gwaith o ddatblygu ei weledigaeth newydd a'i strategaeth hirdymor wedi'i hadnewyddu a'r adolygiad annibynnol o Chwaraeon Cymru.

Mae tystiolaeth wedi cael ei hystyried hefyd yn dilyn ymholiad Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon Cynulliad Cenedlaethol Cymru i weithgarwch corfforol plant a phobl ifanc. Cyhoeddwyd yr adroddiad ym mis Mawrth 2019 ac mae ymateb dilynol Llywodraeth Cymru yn nodi sut mae'r argymhellion hyn yn cael eu datblygu.

Lansiwyd ein strategaeth deng mlynedd, Pwysau Iach: Cymru Iach, ar 17 Hydref eleni, sy'n nodi ein gweledigaeth yn y dyfodol i atal a gostwng cyfraddau gordewdra ledled Cymru. Mae'r strategaeth wedi cael ei hategu drwy ddata, ymchwil ac ymgynghoriad i bennu ble y gallwn wneud y gorau o'n hymdrechion ledled Cymru. Mae hyn eisoes wedi dylanwadu ar feysydd gwaith i'w datblygu ym mhob rhan o'r llywodraeth a gyda phartneriaid. Bydd hefyd yn dylanwadu ar y ffordd y gallwn gyflawni blaenoriaethau yn y dyfodol ledled Cymru drwy'r pedair thema ar amgylcheddau iach, lleoliadau iach, pobl iach ac arweinyddiaeth a galluogi newid, ynghyd â'i datblygu.

3.4 Tystiolaeth o sut y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a'r pum ffordd o weithio wedi dylanwadu ar ddyraniadau'r gyllideb ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

Mae'r canlyniadau llesiant a'r ffyrdd o weithio wedi'u hymgorffori ym mhob agwedd ar gyfrifoldebau a gweithgareddau Chwaraeon Cymru gan gynnwys ei strategaethau a'i gynlluniau busnes. Bydd hyn yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu diwylliant sefydliadol lle y caiff cynaliadwyedd a llesiant eu hystyried drwy bopeth y mae Chwaraeon Cymru yn ei wneud.

Wrth adolygu a datblygu'r weledigaeth a'r strategaeth hirdymor newydd ar gyfer chwaraeon yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio cynnwys a chydweithredu ag amrywiaeth eang o randdeiliaid traddodiadol ac annhraddodiadol yn llwyddiannus (sector chwaraeon ac unigolion).

Mae Chwaraeon Cymru wrthi'n cydweithio ag Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu cynllun gweithredu ar y cyd i gynyddu lefelau o weithgarwch corfforol ledled Cymru.

Fel rwyf wedi sôn, mae Llywodraeth Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Chwaraeon Cymru wedi datblygu'r Gronfa Iach ac Egnïol i ysgogi cydweithio rhwng cymunedau a fydd yn cael buddiannau cynaliadwy hirdymor. Mae'r Gronfa Iach ac Egnïol

newydd yn ceisio ymgorffori egwyddorion datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a'r pum ffordd o weithio yn ei gwaith cynllunio, cyflawni, monitro a gwerthuso a chaiff i ba raddau y mae wedi cyflawni hyn yn llwyddiannus ei ystyried yn y gwerthusiad o broses y gronfa.

Dewiswyd y Gronfa Iach ac Egnïol hefyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru fel rhan o'i adolygiad o'r graddau y mae Llywodraeth Cymru wedi gweithredu yn unol â'r 'egwyddor datblygu cynaliadwy' wrth (a) pennu ei amcanion llesiant; a (b) cymryd camau i'w cyflawni. Prif ganfyddiadau'r adroddiad oedd:

> *"Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i sefydlu'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei busnes craidd. Yn y tri cham a adolygwyd gennym ni, mae'n cymhwyso'r pum ffordd o weithio mewn amryw ffyrdd er ein bod ni wedi canfod rhai cyfleoedd cyffredin i wella."*

3.5 <u>Manylion ynghylch sut y bydd y gyllideb yn cefnogi'r canlynol:</u>

- **Cynyddu gweithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc yng Nghymru.**

Bob blwyddyn, mae Chwaraeon Cymru yn buddsoddi £16m mewn chwaraeon cymunedol sy'n cynnwys nifer o raglenni penodol wedi'u teilwra at blant a phobl ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys mentrau gyda GemauStryd Cymru, Rhwydwaith Chwaraeon BME Cymru, rhaglenni Pobl Ifanc Egnïol, Nofio am Ddim, Llysgenhadon Ifanc a'r Urdd. Mae'r effaith yn cael ei hadolygu yn barhaus er mwyn llywio darpariaeth mewn blynyddoedd i ddod yn well.

Mae Chwaraeon Cymru yn parhau i weithio gyda'r sector Addysg er mwyn cefnogi'r gwaith o weithredu'r cwricwlwm newydd a'r Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles. Un o'r pedwar diben yw bod dysgwyr yn datblygu fel unigolion iach, hyderus sy'n gallu cymhwyso gwybodaeth am effaith deiet ac ymarfer corff ar iechyd corfforol a meddyliol yn eu bywydau pob dydd.

Rhoddodd Arolwg ar Chwaraeon Ysgol Chwaraeon Cymru (2018) ddealltwriaeth werthfawr i ysgolion, colegau ac awdurdodau lleol er mwyn gallu cynllunio eu cynigion gweithgarwch corfforol yn well. Mae'r data hyn hefyd yn helpu Chwaraeon

Cymru, cyrff llywodraethu cenedlaethol a sefydliadau eraill i nodi'r galw cudd am chwaraeon penodol a helpu i lywio cyfeiriad buddsoddiad yn y dyfodol.

Mae annog mwy o bobl ifanc i gymryd rhan mewn chwaraeon yn allweddol i sicrhau ein bod yn fwy egnïol, ac eleni dathlodd Chwaraeon Cymru 10 mlynedd o'r mudiad Llysgenhadon Ifanc yng Nghymru. Yn ystod yr amser hwnnw, mae mwy nag 20,000 o bobl ifanc ledled Cymru wedi cyfrannu'n gadarnhaol at eu cymunedau drwy annog a galluogi pobl i fod yn egnïol yn gorfforol, cefnogi buddiannau chwaraeon, hyrwyddo ffyrdd iach o fyw a gwerthoedd cadarnhaol chwaraeon, a datblygu eu sgiliau arwain eu hunain ac eraill.

Er ei fod yn bartneriaeth rhwng Chwaraeon Cymru ac Ymddiriedolaeth Chwaraeon Ieuenctid yn ffurfiol, ni fyddai'r mudiad Llysgenhadon Ifanc yn bodoli heb ymroddiad y nifer o ysgolion, clybiau, timau datblygu chwaraeon awdurdodau lleol, rhieni a phobl ifanc eu hunain.

Mewn arolwg diweddar, mae 76% o Lysgenhadon Ifanc yn teimlo bod eu cyfranogiad yn y mudiad wedi gwella eu hiechyd a'u llesiant eu hunain, ac mae 91% yn teimlo eu bod wedi gwella iechyd a llesiant pobl ifanc eraill. Yn ogystal, mae 93% o Lysgenhadon Ifanc yn teimlo eu bod wedi cynyddu'r cyfleoedd i bobl ifanc wneud chwaraeon a gweithgarwch corfforol, tra bod 98% wedi dweud bod y mudiad wedi eu helpu i ddatblygu eu sgiliau arwain a chyfathrebu.

- **Yr agenda atal ehangach.**

Mae'r mentrau a'r ymyriadau a ariennir drwy'r dyraniadau cyllideb chwaraeon a gweithgarwch corfforol yn cyfrannu at helpu unigolion i fod yn egnïol yn gorfforol, neu gynnal lefelau o weithgarwch corfforol, gyda buddiannau iechyd ataliol dilynol. Mae'r mentrau a'r ymyriadau yn canolbwyntio ar gynyddu cyfranogiad mewn grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol a'r amrywiaeth llawn o oedrannau – o'r oedrannau ifancaf i'r hynaf; ac ar ddarparu sgiliau a hyfforddiant i unigolion i fod yn hyfforddwyr, gwirfoddolwyr a hyrwyddwyr cyfoedion.

“Pwysau Iach: Cymru Iach”, a lansiwyd yn ddiweddar, yw ein cynllun hirdymor i atal a gostwng gordewdra yng Nghymru. Bydd pum cynllun cyflawni dwy flynedd yn gysylltiedig â'r strategaeth a fydd yn para gydol oes y strategaeth. Mae'r cynllun cyflawni cyntaf ar gyfer 2020-22 yn darparu manylion yr union gamau gweithredu rydym yn eu hystyried yn angenrheidiol er mwyn gweld newidiadau yn ein hymddygiad a'n harferion, wedi'u hannog a'u hyrwyddo drwy ein lleoliadau a'n hamgylcheddau a thrwy arweinyddiaeth leol a chenedlaethol. Mae'r cynlluniau cyflawni yn galluogi cynnwys gwerthuso yn y strategaeth a phrofi ffyrdd priodol o weithio a rhannu arferion gorau.

Dros y ddwy flynedd nesaf, byddwn yn dechrau datblygu polisi a deddfwriaeth ar yr amgylchedd bwyd, gan gyflwyno arian newydd er mwyn helpu i gyflawni ein nodau. Bydd hyn yn ein galluogi i roi mwy o ffocws, ar y cyd â phartneriaid, ar atal ac ymyriad cynnar drwy bob system fel rhan o'n dull o adeiladu Cymru iachach. Bydd y strategaeth yn helpu i sicrhau y gallwn fanteisio i'r eithaf ar arian ychwanegol a chyfleoedd i ysgogi newid ymhlith partneriaid, er mwyn gweld newid yn y ffordd rydym yn defnyddio gwariant ar gyfer atal. Bydd dwy flynedd gyntaf y cynllun cyflawni arfaethedig yn rhoi pwyslais sylweddol ar y blynyddoedd cynnar, plant a theuluoedd i ddylanwadu ar ddewisiadau iachach.

Caiff Bwrdd Gweithredu Cenedlaethol ei sefydlu ar ddechrau 2020, a fydd yn atebol yn uniongyrchol i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Nod hyn fydd olrhain a monitro cynnydd yn ogystal â datblygu amrywiaeth o is-grwpiau er mwyn datblygu blaenoriaethau cenedlaethol. Bydd y bwrdd yn cytuno ar flaenoriaethau cynllun cyflawni 2020-22 ac yn sefydlu'r ffordd o fanteisio i'r eithaf ar adnoddau, polisïau a rhaglenni sy'n bodoli eisoes i gyflawni dull gweithredu integredig. Mae llawer o sbardunau, yn enwedig yn y themâu amgylcheddau a lleoliadau iach, a bydd angen dull trawslywodraethol clir o ysgogi newid a bydd y bwrdd yn atebol er mwyn ysgogi cynnydd.

- **Cydweithio rhwng chwaraeon, iechyd y cyhoedd a phartneriaid eraill.**

Mae Partneriaeth Gweithgarwch Corfforol Cymru wedi cael ei chreu drwy bartneriaeth ar y cyd ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, Chwaraeon Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru i gefnogi a datblygu gwaith partneriaeth ym mhob math o weithgarwch corfforol, gan gynnwys gweithgareddau hamdden egnïol.

Mae'r bartneriaeth yn parhau i gwrdd a bydd yn cynnal cynhadledd genedlaethol yn y gwanwyn i ddod â phartneriaid ynghyd er mwyn datblygu cynllun gweithredu cenedlaethol a'r camau nesaf. Yn y cyfamser, mae'r bartneriaeth yn gweithio ar nifer o flaenoriaethau allweddol i wella data a dulliau ymddygiad drwy ddatblygu Arsyllfa Gweithgarwch Corfforol, datblygu gwaith gohebu ac ymgyrchu ar y cyd ac edrych i integreiddio ein tair rhaglen ysgol drwy Campau'r Ddraig, Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru ac Eco-Ysgolion er mwyn cynnig arlwy gweithgarwch corfforol cynhwysfawr a fydd yn cefnogi'r cwricwlwm newydd.

Mae Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i weithio gydag Is-adrannau Iechyd a Chwaraeon i gyflawni'r Gronfa Iach ac Egnïol newydd. Cyhoeddwyd y 17 o brosiectau a fydd yn cael budd o'r Gronfa o £5.4 miliwn ym mis Gorffennaf 2019:
http://sport.wales/news--events/news--events/our-news/latest-news/healthy-and-active-fund-in-action.aspx

Bydd pob un o'r prosiectau hyn yn cyfrannu at y gwaith o gryfhau asedau cymunedol ac yn canolbwyntio ar wella iechyd meddwl a chorfforol drwy alluogi ffyrdd iach ac egnïol o fyw. Mae prosiectau yn ceisio newid ymddygiad hirdymor pobl sy'n anweithgar neu sydd â lefelau isel o weithgarwch ar hyn o bryd i wella eu llesiant corfforol a/neu feddyliol. Mae'r rhan fwyaf o brosiectau yn canolbwyntio'n benodol ar alluogi a chefnogi pobl hŷn, a phlant a phobl ifanc, i fod yn egnïol yn gorfforol.

Mae fy swyddogion Chwaraeon yn gweithio'n agos gyda swyddogion o lawer o Adrannau Llywodraeth Cymru i gyflawni blaenoriaethau a chanlyniadau polisi, er enghraifft:

- Addysg (Ysgolion ar gyfer yr 21fed ganrif, Hybiau Cymunedol);
- Trafnidiaeth (Teithio Llesol);

- Cydraddoldebau;
- Iechyd (Cronfa Iach ac Egnïol, Pwysau Iach: Cymru Iach, Y Filltir Ddyddiol, Cynlluniau Ysgolion Iach – Rhwydwaith Cymru, Unigrwydd a Theimlo'n Ynysig);
- Cymunedau (Trosglwyddo Asedau Cymunedol, Rhaglen Cyfleusterau Cymunedol).